OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2943 (Cy.260)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Cyfarwyddiadau ac Amodau Gweithgareddau Cyswllt: Cymorth Ariannol) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*13 Tachwedd 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*14 Tachwedd 2008*
Yn dod i rym - -	*8 Rhagfyr 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 11F(3), (6) a (7) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Cyfarwyddiadau ac Amodau Gweithgareddau Cyswllt: Cymorth Ariannol) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 8 Rhagfyr 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "achosion teuluol" yr ystyr sydd i "family proceedings" yn y Rheoliadau Ariannol;

mae i "amod gweithgaredd cyswllt" yr ystyr sydd i "contact activity condition" yn adran 11C(2) o'r Ddeddf;

mae i "cyfarwyddyd gweithgaredd cyswllt" yr ystyr sydd i "contact activity direction" yn adran 11A(3) o'r Ddeddf;

ystyr "darparydd a gymeradwyir" ("*approved provider*") yw person a gymeradwyir am y tro—

(a) gan Weinidogion Cymru, pan fo'r gweithgaredd cyswllt yn cael ei ddarparu yng Nghymru, neu

(b) gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd, pan fo'r gweithgaredd cyswllt yn cael ei ddarparu yn Lloegr,

yn ddarparydd gweithgareddau cyswllt;

(**1**) 1989 p.41. Mewnosodwyd adran 11F gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 (p.20). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 11F (3), (6) a (7) a 104(4) i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a chan baragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.